William Rees, ‘Gwilym Hiraethog’, 1802–83

Gweinidog (A), llenor, golygydd ac arweinydd cymdeithasol

Ganed William Rees ar 8 Tachwedd 1802 yn y Chwibren-isaf, fferm ar odrau Mynydd Hiraethog, plwyf Lansannan, Dinbych, yn drydydd plentyn ac ail fab i Dafydd ac Ann Rees. Yr oedd ei fam o linach Hedd Molwynog a daeth ei dad i Lansannan fel cyllidydd o Wenfô, Morgannwg. Ei frawd hŷn oedd Henry Rees, un o hoelion wyth y Trefnyddion Calfinaidd.

Fel llawer o’i gyfoedion, ychydig o addysg ffurfiol gynnar a gafodd ac felly aeth yn ieuanc i fugeilio a ffermio. Er hynny roedd yn benderfynol o’i ddiwyllio’i hun, a than gyfarwyddyd Robert ap Dafydd, y Gilfach Lwyd, dysgodd gynganeddu gan ennill ar y cywydd yn eisteddfod Aberhonddu ym 1826. Magwyd ef gan y teulu ymhlith y Trefnyddion Calfinaidd, ond oherwydd anghydweld ynghylch mater o ddisgyblaeth eglwysig fe drodd at yr Annibynwyr pan gychwynnwyd achos yn Llansannan ym 1828. Y mater hwnnw oedd diarddel aelod o’r eglwys am dorri’r Sabath trwy deithio i weld ei wraig oedd yn ddifrifol wael.

Yn fuan teimlodd Rees alwad Duw i’r weinidogaeth ac fe gadarnhawyd hynny pan dderbyniodd alwad gan Annibynwyr Mostyn. Yn raddol daeth yn bregethwr grymus a phoblogaidd. Ataliwyd ambell i long rhag hwylio o ddociau Mostyn ar sawl Sul oherwydd bod cymaint o forwyr yn gwrando arno’n pregethu. Symudodd i Lôn Swan, Dinbych, ym 1837, ac yna i’r Tabernacl, Lerpwl, yn olynydd i’r ‘Hen Seraph’, William Williams o’r Wern. Ym 1853 symudodd i Salem yn yr un ddinas ac adeiladwyd capel newydd Grove Street ym 1867.

Bu’n weithgar iawn fel diwygiwr cymdeithasol gan fynegi ei farn yn glir ac arwain eraill trwy gyfrwng cylchgronau. Ef oedd golygydd *Yr Amserau* o 1843–52, ac yn ystod y cyfnod hwnnw ysgrifennodd ‘Llythyrau’r Hen Ffarmwr’. Daeth y llythyrau hyn yn

enwog am eu bod yn gyfrwng i fynegi barn am galedi bywyd gweithwyr Cymru, annhegwch tirfeddianwyr, y Deddfau Ŷd ac addysg. Dywedir iddo ddeffro Cymru'n wleidyddol, ac mai'r *Amserau* oedd yn bennaf gyfrifol am hynny.

Ym 1859 unwyd yr *Amserau* â'r *Faner* ac yn y cylchgrawn ar ei newydd wedd rhoddwyd gofod i ddigwyddiadau Ewropeaidd a byd-eang. Ysgrifennodd yn huawdl gan addysgu'r werin am Mazzini a Garibaldi yn yr Eidal, a Kossuth yn Hwngari, a galwodd am ryddid i'r caethweision yn America. Gwnaeth hynny yn bennaf trwy ei lyfr *Aelwyd F'Ewythr Robert* a oedd yn efelychiad o *Uncle Tom's Cabin*. Roedd hefyd yn arloeswr ym myd y ddarlith gan ei gwneud yn gyfrwng poblogaidd ac effeithiol yng Nghymru. Ar ben hyn fe gyhoeddodd liaws o lyfrau, yn farddoniaeth ac yn rhyddiaith, megis *Gweithiau Barddonol Gwilym Hiraethog* (1855) a *Cofiant William Williams o'r Wern* (1842). Yr oedd cyfanswm ei gyhoeddiadau barddonol yn enfawr. Yr emyn mwyaf poblogaidd a gyfansoddodd oedd emyn mawr Diwygiad 1904–1905, sef:

Dyma gariad fel y moroedd,
Tosturiaethau fel y lli:
T'wysog bywyd pur yn marw,
marw i brynu'n bywyd ni.
Pwy all beidio â chofio amdano?
Pwy all beidio â thraethu'i glod?
Dyma gariad nad â'n angof
tra bo nefoedd wen yn bod.

Ymddeolodd o Lerpwl i Gaer ym 1875 lle y bu fyw hyd ei farw ar 8 Tachwedd 1883. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Smithdown Road, Lerpwl. Bu'n briod ag Ann Edwards, Waunddilen, Nantglyn.